# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 22 Chwefror 2002

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg**.

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Yn dilyn cwestiwn WAQ15773, pa dri phrif fath o ganser y cyfeirir atynt yn yr ateb. (WAQ16020)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Yn dilyn cwestiwn WAQ15773, beth yw'r safonau isaf ar gyfer yr holl fathau eraill o ganser y cyfeirir atynt yn yr ateb. (WAQ16021)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Yn dilyn cwestiwn WAQ15773, pa arwydd clir sydd wedi'i roi gan Awdurdodau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG ynghylch pryd y byddent yn gallu bodloni'r safonau y cyfeirir atynt yn yr ateb. (WAQ16022)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Pa gynlluniau sy'n bod i roi rhaglen addysg ar waith i helpu rhieni babanod sy'n cael eu geni cyn pryd i rwystro effeithiau gwaethaf RSV. (WAQ16030)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gan broffesiynolion iechyd ynghylch trechu RSV yng Nghymru. (WAQ16031)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Sawl achos o'r Feirws Syncitiol Anadlol (RSV) sydd wedi'u cofnodi ymhlith babanod a aned cyn pryd, hynny ym mhob Awdurdod Iechyd yng Nghymru. (WAQ16032)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Gyllid

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Ar ba ddyddiad y gwnaethoch chi benderfynu yn y diwedd i roi'r gorau i weithio gyda Phartneriaeth Richard Rogers gan ei bod wedi tanamcangyfrif cost Adeilad newydd y Cynulliad. (WAQ16024)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Ar ba ddyddiad oeddech chi'n gwybod bod Partneriaeth Rogers Partnership wedi tanamcangyfrif cost Adeilad newydd y Cynulliad. (WAQ16025)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth oedd cost y cyngor proffesiynol parthed penderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i hawlio £6,846,707.00 o iawndal oddi wrth Bartneriaeth Richard Rogers ynghylch Adeilad newydd y Cynulliad ac a wnaiff hi gyhoeddi'r ffigur hwnnw. (WAQ16026)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r holl bapurau a chyngor ysgrifenedig a fu'n sail i benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i hawlio £6,846,707.00 o iawndal oddi wrth Bartneriaeth Richard Rogers ynghylch Adeilad newydd y Cynulliad. (WAQ16027)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw'r Dyfarnydd wedi cysylltu â chi i'ch hysbysu nad priodol oedd dweud bod Partneriaeth Richard Rogers heb gael 'pethau'n iawn' ynghylch Adeilad newydd y Cynulliad. (WAQ16028)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** O ble ddaeth y cyngor cyfreithiol a fu'n sail i benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i hawlio £6,846,707.00 o iawndal oddi wrth Bartneriaeth Richard Rogers ynghylch Adeilad newydd y Cynulliad ac a wnaiff ei gyhoeddi. (WAQ16029)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Gareth Jones (Conwy);** A yw'r gwaith dilynol i Flwyddyn Mathemateg 2000 wedi cychwyn, ac os naddo, pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl y bydd yn cychwyn. (WAQ16034) **W**

**Gareth Jones (Conwy);** A oes Grwp Llywio i oruchwylio'r gwaith dilynol i Flwyddyn Mathemateg 2000 wedi ei sefydlu, ac os do, a wnaiff y Gweinidog gyhoeddi manylion am yr aelodau. (WAQ16036) **W**

**Gareth Jones (Conwy);** Pa sicrwydd a all y Gweinidog ei roi y bydd aelodaeth unrhyw Grwp Llywio i oruchwylio'r gwaith dilynol i Flwyddyn Mathemateg 2000 yn adlewyrchu gwahanol ranbarthau a natur ddwyieithog ein cymunedau. (WAQ16035) **W**

**Gareth Jones (Conwy);** Pa drefniadau sydd wedi eu gwneud i werthuso ansawdd a deilliannau y gwaith dilynol i Flwyddyn Mathemateg 2000. (WAQ16037) **W**

**Gareth Jones (Conwy);** A yw Techniquest wedi penodi cydlynydd ar gyfer y gwaith dilynol i Flwyddyn Mathemateg 2000, ac os do, a wnaiff y Gweinidog gyhoeddi manylion ynglyn â'r cydlynydd yma, gan gynnwys cymwysterau. (WAQ16033) **W**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa geisiadau am gymorth ariannol sydd wedi dod i law oddi wrth brifysgolion tramor i gefnogi datblygiad Prosiect Ieithoedd Celtaidd ym Mhrifysgol Humboldt ym Merlin. (WAQ16023)